

Gwybodaeth i Gleifion

Oesoffagitis eosinoffilig

Gastroenteroleg

Yn dilyn eich endosgopi (prawf camera) mae gennym bellach ganlyniadau'r biopsïau (samplau meinwe a gymerwyd yn ystod yr endosgopi). Mae'r biopsïau yn dangos math penodol o lid math alergaidd, o'r enw Oesoffagitis (Llid yr Oesoffagws) Eosinoffilig, a all gyfrannu at anhawster wrth lyncu bwyd a hylifau a theimlad o fwyd yn glynu.

Triniaeth

Rydym yn gofyn i'ch meddyg teulu ragnodi anadlydd (*puffer* yn Saesneg), o'r enw **Fluticasone MDI aerosol 250 microgram fesul pwff, felly bydd angen i chi gasglu'r presgripsiwn hwn gan eich meddygfa**. Gall cynnwys aerosol y canistr fod yn ddefnyddiol wrth reoli eich symptomau, os caiff ei gymryd yn y ffordd ganlynol:

Sut i ddefnyddio'r anadlydd

Peidiwch â dilyn unrhyw gyfarwyddiadau gweinyddu sydd wedi'u hamgáu gyda'r cynnyrch, yn lle hynny dilynwch y cyfarwyddiadau isod.

- Cymerwch yr anadlydd (puffer), 3 pwff ddwywaith y dydd.
- Chwistrellwch y cynnwys ar y tafod (gan gymryd gofal i beidio ag anadlu)
- Llyncwch hyn i lawr gyda dŵr.
- Peidiwch â bwyta nac yfed unrhyw beth arall am 30 munud ar ôl cymryd y driniaeth.

Cofiwch

Mae'n bwysig, ar ôl rhoi'r pyffiau o'r anadlydd i'ch ceg, eich bod yn llyncu'r dos, yn hytrach na cheisio ei anadlu i mewn.

Mae'r anadlydd yn cael ei ddefnyddio i drin y llid ym mhen uchaf yr oesoffagws (pibell fwyd). Bydd y driniaeth ond yn gallu gweithio os ydych chi'n gallu llyncu yn hytrach nag anadlu cynnwys yr anadlydd.

Sgîl-ffeithiau posibl

Mae'r chwistrell steroid hon yn ddiogel iawn i'w lyncu, a dim ond olion bach y gellir eu hamsugno i'r llif gwaed. Yr unig sgîl-ffaith gyffredin yw llyndag y geg. Os ydych chi'n datblygu dolur gwddf sy'n parhau, ewch at eich meddyg teulu.

Meddyginiaeth ychwanegol

Gall oesoffagitis eosinoffilig a chamdreuliad asid ddigwydd ar yr un pryd. Efallai y bydd angen triniaeth ychwanegol ar rai cleifion sydd hefyd yn dioddef o gamdreuliad asid. Gelwir y cyffuriau a ddefnyddir i drin camdreuliad asid yn atalyddion pwmp proton (e.e. Omeprazole), neu atalyddion Histamine H2 (e.e. Ranitidine).

Apwyntiad adolygu dilynol

Rydym yn bwriadu eich gweld eto yn yr adran Cleifion Allanol ymhen ychydig fisoedd. Bydd hyn yn rhoi cyfle i'r tîm meddygol asesu sut mae eich symptomau'n ymateb i'r driniaeth newydd hon. Os byddwch yn datblygu ymdeimlad o fwyd yn glynu fel nad ydych yn gallu llyncu hylifau, gofynnwch am gyngor meddygol ar frys oherwydd efallai y bydd angen i chi gael eich derbyn i'r ysbyty am gyfnod byr.

Cyfeiriadau

Arora AS et al. (2,003) Topical corticosteroid treatment of dysphagia due to Eosinophilic Esophagitis in adults. Mayo Clin Proc 78 830-835

Basavaraju K P, Hunt C R, Ahluwalia N K. (2,007) "9 years of recurrent dysphagia", The Lancet, 369(9,575) 1,814

Kaufman A B, Cohen M S, Dimarino A J, Cohen S. (2,006) "Eosinophilic Esophagitis in Adults" European Gastroenterology Review, 1. 30-33.

Remedios M, Campbell C, Jones D, Kerlin P. (2,006) "Eosinophilic Esophagitis in adults: clinical, Endoscopic, histologic findings, and response to treatment with Fluticasone propionate" Gastrointestinal Endoscopy 63(1) 3-12.

Crëwyd gan: Dr M Allison, Dr A Yeoman a Phrif Nyrs A Thomas

**Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg /
This document is available in English**